

# Argraff yn unig o ddyfnder

*“Myfi yw y drws; os daw rhywun i mewn trwof fi, caiff ei gadw’n ddiogel.”  
(adn.9)*

## Beth am ddarllen Ioan 10:1–21 ac yna myfyrio

Ddoe fe sylwom fod y Beibl yn cael ei rannu yn nifer o storïau sydd yn adrodd un stori gyfansawdd. Fel hyn mae Howard Hendricks yn mynegi’r peth: “Nid fel athrawiaeth drefnus y daw’r Beibl atom, ond fel naratif. *Ac mae’r ffurf stori a gymera yr un mor bwysig â’r stori a adrodda.*” Roeddwn i wedi ymroi gymaint i geisio dadansoddi’r Beibl ym mlynnyddoedd cynnar fy ngweinidogaeth nes imi fethu â rhoi sylw i’r ffaith mai stori yw’r Beibl o flaen popeth arall.

Un o’r pethau y sylwais i arno wrth imi astudio seicoleg ydy nad oes ganddo synnwyr o stori. Canolbwyntio mae seicoleg ar yr hyn mae’n ei olygu i fod yn “berson” a does dim amgyffred wedyn o’r hyn mae’n ei olygu i fod yn etifedd i deyrnas sydd wedi ei sylfaenu ers dechrau amser. Ac am y rheswm ei fod yn amddifad o’r stori, mae’n methu â dweud y stori’n gyfan. Mae hi fel chwa o awyr iach wedyn i droi o fyd seicoleg i fyd y Beibl a gweld nad ydy’r Ysgrythur yn tywallt dŵr oer dros ein dychmyg nac yn gwneud yn fach o’n chwant am stori, ond yn hytrach yn ei danio, yn ei annog, ac yn rhoi inni rai o’r straeon mwyaf cyffrous sydd wedi eu hadrodd erioed.

Mae lle, wrth gwrs, i ddisgyblaethau seicoleg a chymdeithaseg yn nhrefn pethau, ond maen nhw’n amddifad o ddyfnder ynddyn nhw eu hunain. Maen nhw fel y neuadd ddrychau mewn ffair lle gwelwn wahanol adlewyrchiadau ohonom ein hunain. Ond dyna’r cwbl a welwn ni. Wedi amser, yr ydym am gael mynd allan, am ddod o hyd i’r drws. Fe soniodd Iesu amdano ef ei hun fel drws neu adwy. Os wyt ti’n edrych am fyd newydd – byd gyda dyfnder iddo – bydd rhaid i tithau ddod o hyd i’r drws. Crist yw’r drws hwnnw. Ac mae mynd trwy’r drws hwnnw yn dod â thi i fyd llawer mwy cyffrous nag y gallet ti erioed ei ddychmygu.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Marc 4:33–34;

2 Cor. 5:17

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw’r amod i ddeall storïau Iesu?
2. Beth yw’r amod i fwynhau bywyd newydd cyflawn?

**Gweddi** O Dad, mor falch ydw i’mod i wedi dod o hyd i’r drws yna. Trwy dy Fab rwy’n cael mynediad i fyd sydd y tu hwnt i unrhyw un o’m dychmygion. Galluoga fi i helpu eraill ddod o hyd i’r drws hwn. Yn enw Iesu. Amen.